

(Parhâd o dudalen 17)

Daniel, mab David a Lucy Davies, Pentrefelin. Clerc Plwyf ydoedd David Davies. Yna, yr hyn a geir yng Nghyfrifiad Dwygyfylchi, 1841 ydyw hyn:-

#### PENTREFELIN

	Oedran	Galwedigaeth	Man geni
David Davies	40	Clerc Plwyf	un o'r pentref
David Davies	15		
Ann Davies	15		
Jane Davies	14		
Margaret Davies	11		
Daniel Davies	6		

Felly'n chwe mlwydd oed canfyddir bod Daniel Owen Davies wedi colli Lucy, ei fam, ac yn frawd i efeiliaid, yn ogystal 'roedd dwy chwaer arall ganddo. Sylwer, hefyd, fel y bu iddo'n ddiweddarach enwi ei ferch yn **Lucy Jane**.

#### Cyswllt Ryder Haggard â Lloyd George

Ond dychwelwn at 'Miriam' - Pearl-Maiden, Henry Rider Haggard. Do, mi ddaliodd Haggard gyswllt â Chymru, a'r hen Sir Gaernarfon! Dyma beth a geir yn yr *Herald Cymraeg* Awst 6 ed, 1907 t.5 col.8, tair blynedd wedi cyhoeddi 'Miriam':- **Mr. Rider Haggard a'r Iaith Gymraeg - Y dydd o'r blaen yr oedd Mr. Rider Haggard, nofelydd enwog, yng Nghaernarfon fel un o'r Dirprwywyr sydd ar ymweliad â glannau y moroedd er gweled difrod a wneir gan y môr. Aeth gyda Dr. John, un arall o'r Dirprwywyr, i fasnachdy lleol, a synodd glywed y diwethaf yn siarad Cymraeg gyda'r masnachydd. Yn ddiweddarach gofynnodd i Mr. R. R. Daniel (David Robert Daniel 1859-1931), a aned yn Nhan-y-bryn, Llandderfel, Meirionnydd; Ysgrifennydd Cynorthwyol y Ddirprwyaeth Archwilio Effeithiau Erydu ar y Glannau; Rhyddfrydwr i'r carn, a chyfaill mynwesol Thomas E. Ellis, A.S., y mae bedd D. R. D. ym mynwent Cefnddysarn, a oedd yr iaith Gymraeg yn cael ei siarad yn gyffredinol yn y rhan o'r wlad. Atebodd Mr. Daniel pe yr elai ar hyd heolydd y dref, neu pe safai ar y Maes, na chai glywed bron dim ond Cymraeg; y buasai yn cyfarfod pobl y ty allan i'r dref nas gallent siarad yr un iaith arall: ac y byddai Mr. Lloyd George, yr Aelod dros y bwrdeistref pan yn annerch cyfarfodydd yn siarad Cymraeg bob amser. Diddorol nodi yma gyswllt Haggard hefo Lloyd George.**

Sylfeinir yr wybodaeth ddetholedig a ganlyn, ar yr hyn a gynhwysir yn llyfr Peter

**MIRIAM:**

NEU

**Y BERL RIAN**

CYFIEITHEDIG GAN Y

**PARCH. D. O. DAVIES,**

LLANDEKINIOLEN.

*Pris: Mewn amlen bapwr, 1s.; yn rhydd drwy Post am 1s. 2c.; eto mewn llian, 1s. 6c. drwy'r Post, 1s. 9d.*

Hysbyseb a ymddangosodd yn Y Llan a'r Dywysogaeth (1905)



Syr H. Rider Haggard

Beresford Ellis, sef H. Rider Haggard. *A Voice from the Infinite* (diolchiadau yma i Dafydd Whiteside Thomas, Llyfrgell Caernarfon, am dynnu fy sylw at y gyfrol), Llundain/Henley: Routledge a Kegan Paul 1978:- Gyda'r Rhyddfrydwyr bellach yn rym Llywodraethol yn San Steffan, a hynny ar ddiwedd y flwyddyn yn 1905, bwrir ati i sefydlu Comisiwn er mwyn archwilio erydu arfordirol. Ysgrifennodd Haggard lythyr at David Lloyd George, a oedd bryd hynny'n Llywydd y Bwrdd Masnach, a datgelir yn hwnnw sut y bu iddo'n llwyddiannus atal erydu ar ei stad yng Ngessingland Grange, a oedd ar arfordir dwyreiniol Lloegr. Llwyddodd i wneuthur hynny drwy dyfu glaswellt marram. Bu i Lloyd George ddanfôn cennad at Haggard yn gofyn iddo alw i'w weld. Cynigir lle iddo ar y Comisiwn. Yn ddiweddarach mewn cinio, a Lloyd George yn bresennol, manteisiodd Haggard ar y cyfle i ofyn i'r Cymro a oedd modd ychwanegu Fforestyddiaeth fel rhan o waith y Comisiwn. Bu Tri Adroddiad yn ymwneud ag archwilio erydu arfordirol. Fe'u cyhoeddwyd yn 1907, 1909 ac 1911. Do fe wnaed greu fforestydd, a'r fforest 'arbrofol' gyntaf yng Nghymru oedd yn Hafod Fawr.

#### Ymweliad Haggard â Chaernarfon

Gydag ymweliad Haggard â thref Caernarfon mewn golwg, cysylltais ym mis Chwefror 2004 hefo'r Archifdy yn Norfolk gan ofyn i'r Archifydd yno os oedd Haggard wedi cadw dyddiadur o'i ymweliad â rhanbarth ogleddol Cymru yn y flwyddyn 1907, a dyma beth a gaed (sef rhan o ddogfen 4694/16):-

(Cyfieithiad) : *Dydd Sadwrn Gorffennaf 27ain, a Dydd Sul Gorffennaf 28ain 1907-Gwesty Brenhinol - 'Y Royal' (Y Celtic heddiw, yn nhref Caernarfon). Ar ddydd Llun 29ain Gorffennaf 1907 cyrhaeddodd Haggard Lanfairfechan am 10.31, gan archwilio glan y môr, a cherdded dwy filltir i Benmaenmawr; cafodd ginio ym Mae Colwyn 12.40. Yn Abergele 2.43. Yna i Rhyl, a Chaer, yn Lloegr, ble yr arhosodd yng Ngwesty'r Frenhines.*

Yma, dychwelydd at y newyddion yn yr *Herald Cymraeg*, Awst 6ed, 1907, a gweddill yr hanes, pryd y dywedodd Mr Rider Haggard

*fod yn dda ganddo ddeall fod yr iaith Gymraeg yn cael ei siarad mor gyffredinol, oherwydd nid oedd yn gweled hen ieithodd yn marw. Yr oedd yr aelodau Seneddol Cymreig yn gyson â hwy eu hunain pan yn gofyn am i'r iaith Gymraeg gael ei chydnabod, oherwydd yr oeddynt yn siarad Cymraeg eu hunain. Hynod ddiddorol ynte, sy'n dangos gogwydd meddwl rhyddfrydol Yr Herald Cymraeg yn y flwyddyn 1907. Mae'r deryn nesaf yn dyfod â nyini'n nes eto fwy-fyth at Daniel Owen Davies, a 'Miriam':- Awgrymwyd i Haggard mai da fuasai, ar ôl iddo fod ar ymweliad â Chymru, iddo ysgrifennu nofel Gymreig, ond atebodd yntau y buasai yn well ganddo adael gwaith o'r fath i ysgrifennydd brodorol. Credai fod un o'i nofelau wedi ei chyfieithu i'r Gymraeg. Ysgrifennodd rhywun ato i ofyn am ganiatâd i gyfieithu y llyfr, a rhoddodd ef, ond nis gallai ddweud ym mha bapur yr ymddangosodd yr ystori.*

#### Agwedd ryddfrydol Yr Herald Cymraeg

Ai Daniel Owen Davies a ohebdd hefo Haggard? Dyma waith chwilota ychwanegol, hynny ydyw, mynd ar drywydd llythyr a dderbyniodd Haggard o Gymru! Paham na wnaeth Yr Herald Cymraeg gysylltu hefo D. O. Davies er mwyn trefnu iddo gyfarfod H. R. Haggard yn y flwyddyn 1907? Ie, ynte! A gollwyd cyfle? Cwestiwn teg ac un anodd ei ateb. Do, fe gollwyd cyfle i raddau, ond nis gwyddys yr amgylchiadau. Ymweliad brys oedd hwn o eiddo Haggard. Rhaid cofio bod gan Yr Herald Cymraeg yn y cyfnod hwnnw agwedd ryddfrydol gadarn. Tybed fod y newyddiadur poblogaidd hwn hefo rhagfarn tuag at Eglwyswyr? Onid oedd Haggard o blaid yr Eglwys Sefydledig Anglicanaidd, ac ym mis Mawrth y flwyddyn 1895 bu iddo gyhoeddi pamffled, sef *Church and State*, yn gwrthwynebu'n ffaidd y bobl rheini a wrthodai dalu degymau i'r Eglwys? Nofelydd o statws ydoedd Haggard. Dyma, hefyd, gyfnod yn hanes Cymru pryd y digwyddai brwydr ffyrnig o ran dadleuon geiriol dros Ddatgysylltu'r Eglwys yng Nghymru oddi wrth un Lloegr yn y Wasg? Erbyn y flwyddyn 1920, fe wireddid, wedi canrif o aros, yr hyn a anogwyd gan Owain Glyndwr, sef Datgysylltu Eglwys Cymru oddi wrth Eglwys Loegr, gan roddi'r hawl gyfreithiol i Gymru benodi Esgobion ac Archesgob. Ond paham y gwnaeth y Wasg Gymreig yn y flwyddyn 1907 geisio cuddio'r ffaith fod un o nofelau Haggard, sef Pearl-Maiden eisoes, ers y flwyddyn 1904, wedi ei rhydd-gyfieithu i'r Gymraeg? Ie *'Miriam - Y Perl Rian*, a gyfieithwyd gan Reithor Llanddeiniolen. Hwyrach fod atebion bellach dan lwch cymylau amser. Serch hynny, ffaith yw ffaith, - Cymro Cymraeg ac Eglwyswr Hen Eglwys Loegr, (dyna oedd trefn grefyddol yr oes!), ydoedd D. O. Davies, ac nid oedd hynny'n ei greu'n fwy o berson nac yn ei leihau mewn unrhyw fodd. Ydyw, y mae'n llawn haeddu eleni, â'r Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal nepell, gael ei osod 'yn oriel yr anfarwolion,' chwedl yr Athro T. H. Parry Williams, Rhyd-ddu. Ym 2007, byddwn yn ei ddal mewn cof, a hynny dros gan mlynedd ers cyhoeddi ei lyfr yn *Miriam - Y Berl Rian; Daniel Owen Davies*.